**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 21 Gorffennaf 2020 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L S Gibbard (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J A Hale | D W Helliwell |
| T J Hennegan | P K Jones | M Sherwood |
| L J Tyler-Lloyd | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Jonathan Wills | Cyfreithiwr arweiniol |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd Y V Jardine
Y Cynghorydd E T Kirchner
Y Cynghorydd A Pugh

---

## 32 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 33 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldebau a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2020 fel cofnod cywir.

## 34 Y Diweddaraf am Gydgynhyrchu.

Darparodd y Swyddog Strategaeth a Pholisi ddiweddariad ar Gydgynhyrchu ac amlinellodd y canlynol: -

- Fframwaith Strategol Cydgynhyrchu – gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o ymgynghori i gydgynhyrchu
- Rhaglen Hyfforddiant

- Adolygiad o broses Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a datblygu Asesiad Effaith Integredig

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Defnyddio cydgynhyrchu i adolygu'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- Yr hyn a gynhwyswyd yn y rhaglen hyfforddi a'r amserlen bosib ar gyfer ei chyflwyno'n ehangach
- Y gwahaniaeth rhwng y gwahanol fathau o ymgynghori – dylai pob ymgynghoriad fod yn ddilys ac yn ystyrlon
- Ystyr a dealltwriaeth o gydgynhyrchu
- A ellid ymgorffori cyd-gynhyrchu yng nghynllun adferiad COVID-19 y cyngor

**Penderfynwyd** ar y canlynol:
1) Nodi'r diweddariad; a
2) Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro cydgynhyrchu gyda diweddariadau rheolaidd, yn enwedig o ran yr Asesiad Effaith Integredig, y rhaglen hyfforddiant cydgynhyrchu a chynnwys cydgynhyrchu yng nghynllun adferiad COVID-19 y cyngor.

## 35 Y Diweddaraf am Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol.

Cyflwynodd y Rheolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol Strategol adroddiad ar y 'Diweddaraf am yr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol' a dynnodd sylw at y canlynol: -

- Canlyniadau Arolwg Chwarae Teg - nifer y camau gweithredu ynghylch meysydd recriwtio a dethol; rheoli perfformiad; dysgu a datblygu; gwobrau a chydnabyddiaeth a gweithio hyblyg
- hyrwyddo cyngor Abertawe fel cyflogwr
- gwelliannau i'r broses recriwtio i'w wneud yn fwy hygyrch
- Prosiect denu recriwtio
- Cymorth i'r gweithlu BAME yn ystod COVID-19

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cost arolwg Chwarae Teg – gan gynnwys diwrnod o ymgynghori a fydd yn canolbwyntio ar recriwtio a dethol
- Cais am gael gweld yr arolwg a'r adroddiad
- Addasrwydd yr arolwg a gohebiaeth i dderbynwyr ar nod yr arolwg
- Ymestyn gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau BAME a grwpiau sydd â chynrychiolwyr BAME
- Adolygiad o bolisi gweithio ystwyth - iechyd, diogelwch a lles staff sy'n gweithio gartref
- Ymwybyddiaeth staff o bolisïau
- Gwella data'r gweithlu – anogaeth a hyder i staff ddatgelu data
- Adolygiad o'r polisi cam-drin domestig ar gyfer staff

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 36 Trafodaeth Ynghylch Mudiad Mae Bywydau Du o Bwys.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Rhybudd o Gynnig ar "Mae Bywydau Du o Bwys" a gyflwynwyd i'r cyngor ar 2 Gorffennaf 2020.

Cytunodd y Pwyllgor i ychwanegu'r eitem hon at y cynllun gwaith, sefydlu gweithgor ar gyfer y gwaith hwn a chyfethol y Cynghorydd Yvonne Jardine i'r Pwyllgor at ddibenion yr eitem hon.

Cafwyd trafodaeth, a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cwmpas y Rhybudd o Gynnig
- Pwysigrwydd addysg ac ymgysylltiad
- Adrodd stori Abertawe
- Ystyriaethau o'r hyn a fydd yn gwneud gwahaniaeth ar gyfer y dyfodol
- Amrywiaeth o blaciau glas
- Strategaeth/meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau
- Caethwasiaeth fodern

Cyflwynwyd sawl cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Amlinellodd y Cadeirydd y cwestiynau i'r Pwyllgor eu hystyried. Roedd y cwestiynau'n ymwneud â'r canlynol:

- Cwynion a dderbyniwyd
- Rhestr o enwau strydoedd, tirnodau, henebion i'w hadolygu
- Y costau posib a'r dyraniad gorau o adnoddau
- Categoreiddio "Mae Bywydau Du o Bwys"
- Rhaglen gynnwys/ymgynghoriad cyhoeddus
- Caethwasiaeth fodern

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n ymateb yn ffurfiol i'r cwestiynau a gyflwynwyd, gan gyflwyno rhai cwestiynau sy'n gofyn am fanylion penodol at y swyddogion perthnasol. Nododd y Cadeirydd fod y gwaith hwn yn y camau cynnar iawn ac felly ni ellid ateb nifer o gwestiynau ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Ychwanegu cynnig "Mae Bywydau Du o Bwys" at y cynllun gwaith;
2) Sefydlu gweithgor ar gynnig "Mae Bywydau Du o Bwys" ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor; a
3) Chyfethol y Cynghorydd Yvonne Jardine i'r Pwyllgor yn ystod ei waith ar eitem "Mae Bywydau Du o Bwys".

**Sylwer:** Mae rheol 47 Gweithdrefn y Cyngor "aelodau cyfetholedig" yn nodi:

"Heblaw y darperir i'r gwrthwyneb drwy statud neu yn y penderfyniad sy'n awdurdodi eu penodi neu mewn perthynas â phenodiadau i'r Pwyllgor Safonau, rhaid trin pobl a gyfetholwyd i'r cyngor neu i Bwyllgor fel pe baent yn aelodau etholedig y Pwyllgor ar

bob cyfrif wrth iddynt fynychu cyfarfodydd, ac eithrio na fyddant yn:

a) Cyfrif tuag at gworwm;
b) Pleidleisio ar unrhyw gynnig sy'n awdurdodi gwario arian neu fynd i gostau gan y cyngor;
c) Cymwys i wasanaethu fel Cadeirydd neu Is-gadeirydd ar gyfer unrhyw un o bwyllgorau'r cyngor;
d) Pleidleisio ar unrhyw gynnig ynghylch penodi, dyrchafu, diswyddo, cyflog, pensiwn, blwydd-daliadau neu amodau gwasanaeth unrhyw berson a gyflogir gan y cyngor. "

**37 Cynllun Gwaith 2019/20.**

Cyflwynodd y Cadeirydd Cynllun Gwaith 2019/20 a nodwyd bod yr eitemau canlynol wedi'u trefnu ar gyfer y cyfarfod nesaf:

- Y Diweddaraf am y Strategaeth Ynni
- Y wybodaeth ddiweddaraf am Bolisi Datblygu Cynaliadwy
- Adborth ar gynnig "Mae Bywydau Du o Bwys".

**Penderfynwyd** diweddaru'r cynllun gwaith yn unol â hyn.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.45 am

**Cadeirydd**